**Cofnodion cyfarfod cyntaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Gwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol yn ystod y Chweched Senedd, 29/06/2021**

**Aelodau o'r Senedd yn bresennol:**

Vikki Howells AS
Huw Irranca-Davies AS
Luke Fletcher AS
Peredur Owen Griffiths AS
Mark Isherwood AS

**Yn bresennol:**

Ryland Doyle (ar ran Mike Hedges AS)
Derek Walker – Canolfan Cydweithredol Cymru (CCC)
Daniel Roberts – CCC
James Wright – Co-operatives UK
Robin Lewis – Swyddfa Vikki Howells AS

**Cofnodion:**

Ar ddechrau'r cyfarfod, cafwyd cynnig gan Huw Irranca-Davies y dylid ethol Vikki Howells yn Gadeirydd y grŵp trawsbleidiol, a chafodd y cynnig hwn ei eilio gan Luke Fletcher. Felly, cafodd Vikki Howells ei hethol yn Gadeirydd.

Wedyn, cafwyd cynnig gan Vikki Howells y dylid ethol Daniel Roberts yn Ysgrifennydd y grŵp trawsbleidiol, a chafodd y cynnig hwn ei eilio gan Luke Fletcher. Felly, cafodd Daniel Roberts ei ethol yn Ysgrifennydd.

Penderfynwyd y dylai'r grŵp trawsbleidiol gael Is-gadeirydd. Cafwyd cynnig gan Peredur Owen Griffiths y dylid ethol Luke Fletcher yn Is-gadeirydd, a chafodd y cynnig hwn ei eilio gan Vikki Howells AS. Felly, cafodd Luke Fletcher ei ethol yn Is-gadeirydd.

Penderfynwyd mai nod y grŵp yw parhau â'i waith yn ystod tymor diwethaf y Senedd, sef "I drafod Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol yng Nghymru". Hefyd, penderfynwyd y byddai Derek Walker, Daniel Roberts, Ceri Anne Fidler Jones a Mike Erskine yn parhau'n aelodau o'r grŵp.

Aeth y grŵp ymlaen i drafod blaenoriaethau allweddol ar gyfer y sector, a chlywodd gan Derek Walker o Ganolfan Cydweithredol Cymru a James Wright o Co-operatives UK. Soniodd James Wright am yr adroddiad a gyhoeddwyd gan Co-operatives UK yn ddiweddar, *The Co-op Economy 2021*, sef adroddiad cynhwysfawr ar y sector cydweithredol yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn dangos bod busnesau cydweithredol wedi bod yn fwy gwydn yn wyneb y dinistr economaidd a achoswyd gan COVID, gan gyfeirio at y wybodaeth a ganlyn:

- Dim ond 1.5 y cant o gwmnïau cydweithredol a ddiddymwyd yn 2020, o gymharu â 6.5 y cant o fusnesau yn gyffredinol
- Roedd cwmnïau cydweithredol yn bedair gwaith yn llai tebygol o roi'r gorau i fasnachu
- Cynyddodd nifer y cwmnïau cydweithredol annibynnol 1.2 y cant yn 2020 er gwaethaf y pandemig byd-eang
- Tyfodd trosiant y 7,237 o fusnesau cydweithredol yn y DU i £39.7bn (cynnydd o £1.1bn)

- Mae cwmnïau cydweithredol yn fwy uchelgeisiol na busnesau bach yn gyffredinol, gyda 61 y cant o gwmnïau cydweithredol yn nodi uchelgais i dyfu neu ddatblygu yn ystod chwarter cyntaf 2021.

Dywedodd James y byddai data a dadansoddiad penodol i Gymru ar gael yn fuan. Ar ôl y cyflwyniad, nododd Derek Walker rai o'r meysydd allweddol ar gyfer Canolfan Cydweithredol Cymru a'r sector cydweithredol yng Nghymru, gan gynnwys:

- Cyfrannu at amcan Llywodraeth Cymru o ddyblu nifer y busnesau y mae cyflogeion yn berchen arnynt yng Nghymru, a'r buddion posibl i'r sector cydweithredol o ganlyniad i hynny
- Cynyddu nifer y cynlluniau tai cydweithredol a'r cynlluniau sydd wedi'u harwain gan y gymuned yng Nghymru
- Cwmnïau cydweithredol amaethyddol, a sut y gellir darparu cymorth uniongyrchol i'r sector hanfodol hwn o gofio'r heriau economaidd sy'n ei wynebu, yn ogystal ag effaith newid yn yr hinsawdd a Brexit arno.
- Cwmnïau manwerthu cydweithredol, a rôl bosibl cwmnïau cydweithredol mwy yn y diwydiant hwn yng Nghymru

Soniodd Huw Irranca-Davies am ei fwriad i ddeddfu i greu cyfraith Marcora i ddarparu'r fframwaith cyfreithiol, y cymorth ariannol a'r cyngor i hwyluso camau gan gyflogeion i brynu busnesau, a'i ddymuniad am gefnogaeth drawsbleidiol ar gyfer y cynnig hwn.

Trafododd Mark Isherwood ei brofiad o weithio ar fodelau tai cydweithredol yn benodol, ac fe awgrymodd mai blaenoriaeth allweddol yn y maes hwn ddylai fod asesu beth sydd wedi'i wneud yn barod a'r gwersi a ellir eu dysgu at y dyfodol. Hefyd, nododd fod ei waith achos wedi dangos bod ystod eang o wahanol fathau o gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol yn bodoli, a bod deall anghenion penodol pob un o'r rhain yn hollbwysig.

Awgrymodd Luke Fletcher y dylid canolbwyntio'n benodol ar y sector ynni adnewyddadwy ac ynni cymunedol, a'r rôl allweddol bosibl y gallai'r sector hwn ei chwarae wrth ymdrin â newid yn yr hinsawdd, gan adeiladu ar lwyddiant yn y maes hwn yng Nghymru.

Tynnodd Peredur Owen Griffiths sylw at fancio cymunedol a'r hyn y gellir ei wneud i hybu twf y sector hwn yng Nghymru. Roedd Derek Walker yn cefnogi'r syniad hwn, gan nodi datblygiad Banc Cambria a'r posibiliadau yn y maes hwn yng Nghymru.

Bydd Derek Walker a Daniel Roberts yn cynnig amserlen arfaethedig o ddigwyddiadau ar gyfer y grŵp, gan nodi siaradwyr gwadd posibl. Cynigiwyd y dylid cynnal cyfarfod cyhoeddus cyntaf y grŵp trawsbleidiol ym mis Hydref, a bydd Daniel Roberts yn cysylltu â'r aelodau maes o law i drafod dyddiad addas.